

Asgwrn wedi torri



Cardiau chwarae rôl: **Torri asgwrn**

Beth sy'n digwydd?

Mae dau ifanc yn reidio ar eu beiciau i'r ysgol. Mae'r lôn feiciau ar balmart ac mae'n brysus iawn y bore hwn.

Cardiau chwarae rôl: **Torri asgwrn**

Syniadau ar gyfer

cyflawni rolau

Sesiwn ôl-drafod

- Gwisgwch gotiau neu ddillad eraill y gallech eu defnyddio fel padin a chymorth.
- Gwnewch fodolau o gyrr beic gan ddefnyddio cardbord.
- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i'w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.
- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o'r rôl.
- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori. Gallech feddwl am y canlynol:
 - Beth ddigwyddodd i'r un a oedd wedi torri asgwrn? Pa arwyddion o asgwrn wedi torri oedd i'w gweld?
 - Sut wnaeth y cynorthwydd eu helpu?
 - Beth wnaeth y gwylwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

Cardiau chwarae rôl: **Torri asgwrn**

Beiciwr sy'n syrthio

Mae'r unigolyn hwn yn beicio ar y lôn feiciau a daw rhywun i gerdded o'i flaen heb rybudd. Mae'n gwyro i'w osgoi ac yn colli rheolaeth ar ei feic. Mae'n syrthio ac yn glanio'n drwm ar ei fraich.

Mae ei fraich yn brifo'n arw. Nid yw'n edrych yn normal ac mae'n ymddangos ei fod wedi plygu. Wrth geisio ei symud, mae'n brifo'n arw iawn.

Cardiau chwarae rôl: **Torri asgwrn**

Helpwr

Mae'r unigolyn hwn yn cerdded i'r ysgol, ac mae'n camu i'r lôn feiciau heb feddwl. Mae beiciwr bron â'i daro ond mae hwnnw'n gwyro i'w osgoi. Mae'r beiciwr yn syrthio oddi ar y beic ac yn anafu ei fraich.

Mae'n ymddiheuro'n fawr. Mae'n siarad â'r beiciwr i weld a yw wedi brifo. Nid yw ei fraich yn edrych yn normal ac mae'n ymddangos ei fod wedi plygu. Mae'n tynnu ei got ac yn creu math o glustog i'r beiciwr orffwys ei fraich arni. Mae'n gwybod bod yr ysbyty'n agos iawn ac mae'n cynnig ei helpu i gerdded i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Cardiau chwarae rôl: **Torri asgwrn**

Gwylwr

Mae'r unigolyn hwn yn beicio y tu ôl i'w ffrind, ac yn sydyn mae rhywun yn camu i gerdded o'i flaen. Mae ei ffrind yn gwyro i osgoi taro'r cerddwr ac yn syrthio oddi ar ei feic.

Mae'n sylweddoli bod eich ffrind wedi brifo ei fraich. Mae'n ddig bod yr unigolyn hwn wedi achosi'r ddamwain – fe wnaeth gamu i'r lôn feiciau, wedi'r cyfan. Mae'n dechrau gwiddi ar yr un a gerddodd o flaen ei ffrind.